TGAU

3000N30-1A

A20-3000N30-1A

**DYDD MAWRTH, 10 TACHWEDD 2020 – BORE**

# CYMRAEG IAITH

**Uned 3**
**Darllen ac Ysgrifennu: Trafod, Perswâd a Chyfarwyddiadol**

2 awr

## DEUNYDD DARLLEN I'W DDEFNYDDIO GYDAG ADRAN A

3000N301A
01

© WJEC CBAC Cyf.

**DARN DARLLEN 1**

# 10 o fusnesau llwyddiannus Cymru

Gwasg Carreg Gwalch
Llanrwst, Sir Conwy.
Cynnyrch: Llyfrau

NATURAL HALEN MÔN ANGLESEY SEA SALT
Brynsiencyn, Ynys Môn.
Cynnyrch: Halen

Ifor Williams Trailers
Corwen, Sir Ddinbych.
Cynnyrch: Trelars

Rhiannon
Tregaron, Ceredigion.
Cynnyrch: Gemwaith

COWBOIS
Y Bala, Gwynedd.
Cynnyrch: Dillad



LAURA ASHLEY
Carno, Powys.
Cynnyrch: Tecstilau

MELIN TREGWYNT
Casmorys, Sir Benfro.
Cynnyrch: Carthenni gwlân

PENDERYN
Penderyn, Rhondda Cynon Taf.
Cynnyrch: Wisgi a gwirodydd eraill

SiLiBiLi co.uk
Sili, Bro Morgannwg.
Cynnyrch: Dillad plant

BRECON CARREG
Aberhonddu, Powys.
Cynnyrch: Dŵr potel

**DARN DARLLEN 2**




## OES GENNYCH CHI SYNIAD AM FUSNES?

## YDYCH CHI'N CHWILIO AM FUDDSODDIAD ARIANNOL?

Mae rhaglen deledu newydd gyffrous, Ffau'r Llewod, yn chwilio am entrepreneuriaid ifanc 16-18 oed i gymryd rhan.

Byddwch yn cael cyfle i gyflwyno'ch syniadau i banel o bobl fusnes fwyaf llwyddiannus Cymru.

Bydd y syniadau gorau yn derbyn buddsoddiad ariannol gan aelodau'r panel a bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael y cyfle i gael eu mentora gan un ohonynt.

Os ydych chi'n entrepreneur ifanc sydd â syniad gwych am fusnes arbennig, neu os oes gennych gynnyrch sy'n barod i gael ei farchnata a'i werthu, cysylltwch â ni ar frys.

Am fwy o fanylion, ewch i'n gwefan www.ffaurllewod.cymru

Er mwyn ymgeisio, ebostiwch entrepreneur@ffaurllewod.cymru gan sicrhau eich bod yn

- Cyflwyno eich hun (mewn dim mwy na 500 gair)
- Rhoi amlinelliad o'ch syniad busnes (mewn dim mwy na 500 gair)

3000N301A
03

**DARN DARLLEN 3**

# Nwyddau Llwyddiannus

**Ydych chi erioed wedi meddwl am gychwyn eich busnes eich hun? Dyma nwyddau sydd wedi dod yn boblogaidd ar ôl ymddangos ar raglen *Dragons' Den* ar BBC2.**




**Saws Reggae Reggae**

Dyfeisydd: Levi Roots          Gwerth y cwmni heddiw: £30 miliwn

Glywsoch chi erioed am y saws barbeciw Reggae Reggae sy'n defnyddio sbeisys o Jamaica? Derbyniodd Levi Roots fuddsoddiad o £50,000 am siâr o 40% o'r cwmni. Sainsbury's oedd yr archfarchnad gyntaf i'w werthu ac roedd galw mawr amdano – gwerthwyd stoc blwyddyn arferol yn yr wythnos gyntaf. Erbyn hyn mae saws Reggae Reggae yn cael ei werthu yn holl archfarchnadoedd y Deyrnas Unedig ac Iwerddon.

**Trunki**

Dyfeisydd: Rob Law          Gwerth y cwmni heddiw: £200 miliwn

Mae'n siŵr eich bod chi wedi profi diflastod aros am hediad mewn maes awyr rywdro. Wel, meddyliwch am y straen mae hynny'n ei achosi i rieni! Dyma sbardunodd Rob Law i ddyfeisio cês ar olwynion o'r enw Trunki. Er iddo fethu â denu buddsoddiad i'w gwmni ar *Dragons' Den*, mae dros 3 miliwn o Trunkis wedi cael eu gwerthu dros y 10 mlynedd diwethaf mewn siopau fel John Lewis, Argos a Tesco. Oes gennych chi un? Mae'r cês ar olwynion sy'n addas i blant eistedd arno ar gael i'w brynu mewn 44 o wledydd ar draws y byd.




**Tangle Teezer**



Dyfeisydd: Shaun Pulfrey          Gwerth y cwmni heddiw: £200 miliwn

Sawl gwaith rydych chi wedi deffro yn y bore a'ch gwallt yn glymau i gyd? Mae gan y brwsh gwallt yma 400 o ddannedd sy'n gallu llithro'n llyfn drwy wallt sych neu wlyb gan roi trefn ar bob blewyn. Ni lwyddodd panel *Dragons' Den* i weld potensial y cynnyrch. Aeth Shaun Pulfrey ati i anfon brwsh am ddim at steilwyr gwallt y sêr ac o fewn dim o dro, roedd pobl fel Victoria Beckham, Nicole Scherzinger a Kate Middleton yn canu clodydd y brwsh. Erbyn hyn mae'n cael ei werthu mewn 75 o wledydd.

## Felly beth amdani?

**DARN DARLLEN 4**



**Cyfweliad gyda Shoned Owen – entrepreneur llwyddiannus o Wynedd a'r brêns y tu ôl i'r cynnyrch lliw haul ffug Tanya Whitebits.**

**Beth yw dy gefndir busnes di?**

Roedd gen i ddiddordeb ym maes harddwch ac roeddwn i wedi bod yn defnyddio gwelyau haul yn ystod fy ugeiniau cyn i mi sylweddoli peryglon cancr y croen. Es i ar gwrs sbrê-tan proffesiynol yn 2012 er mwyn cynnig gwasanaeth symudol o'r enw *Tanya Whitebits Mobile Tanning* ac roeddwn i'n gallu ffitio gwasanaeth fel hwn o gwmpas gweithio'n llawn amser a magu teulu. Cofrestrais i'r enw tafod-yn-y-boch Tanya Whitebits a rhoi nod masnach arno.

**Sut dest ti i ddatblygu dy gynnyrch dy hun?**

Doeddwn i ddim yn hapus efo'r cynnyrch lliw haul ffug oedd ar y farchnad – rhai yn rhy oren ac yn rhy ludiog ar y croen a rhai eraill yn arogli fel bisgedi – felly fe ddechreuais i feddwl am greu fy sbrê-tan unigryw fy hun. Felly, daeth fy mreuddwyd i'n wir. Ym Mehefin 2015 lansiwyd *Tanya Whitebits Self Tan Bronzing Mousse* yn swyddogol.

**Oedd y broses o werthu'r cynnyrch newydd yn hawdd?**

Nag oedd, wir! Mae yna elfen o snobyddiaeth yn y diwydiant harddwch, a doedd y prynwyr ddim yn barod i fuddsoddi mewn brand oedd efo enw nad oedd llawer wedi clywed amdano fo. Byddai hi wedi bod yn hawdd rhoi'r ffidil yn y to ar y dechrau, ond roeddwn i'n credu yn fy nghynnyrch. Y cwbl roedd arna' i angen ei wneud oedd perswadio pobl i roi cynnig ar ei ddefnyddio fo eu hunain.

**Sut rwyt ti'n llwyddo i wneud i dy fusnes dyfu?**

Drwy ddal ati, cwsmeriaid ffyddlon sy'n rhoi'r gair ar led a defnydd helaeth o'r cyfryngau cymdeithasol. Mae mwy a mwy o fusnesau'n gwerthu'r cynnyrch bob blwyddyn ac mae gen i siop ar-lein. Mae ennill gwobrau fel *'Network She's New Business of the Year'* a chael fy enwebu ddwywaith yn y *'Great British Entrepreneur Awards'* hefyd yn dod â sylw i'r cynnyrch.

**Beth yw dy obeithion ar gyfer y dyfodol?**

Mae gen i uchelgais i ddatblygu'r brand i fod yn un rhyngwladol ac i fod yn gynnyrch lliw haul ffug mwyaf poblogaidd y Deyrnas Unedig.

**Oes gennyt ti gyngor ar gyfer entrepreneuriaid ifanc?**

Dilynwch eich breuddwydion. Pan adawais i'r ysgol, nid fi oedd y gorau yn fy mlwyddyn o ran gallu, ond rydw i wedi ymroi'n llwyr i rywbeth mae gen i ddiddordeb ynddo, rwy'n llawn gredu ynddo ac yn ei garu. Nid llwyddo mewn arholiadau yw popeth.



**DARN DARLLEN 5**

## Gwahoddir chi'n gynnes i






## Agoriad Swyddogol

## Siop Manon

**Cryn dipyn o syndod i ffans y gyfres deledu boblogaidd *Rownd a Rownd* oedd clywed bod un o hoelion wyth y gyfres deledu boblogaidd yn gadael.**

I'r actores Manon Elis (Michelle) mae hi felly yn dipyn o newid byd ar ôl chwarae'r rhan oddi ar 1999.

Er nad oes llawer o amser ers i Michelle ffarwelio a diflannu oddi ar y sgrin, cafodd Manon wybod nad oedd dyfodol i'w chymeriad tua 18 mis yn ôl.

"Pan ges i wybod bod fy rôl i yn *Rownd a Rownd* yn dod i ben, roedd pob math o bethau yn mynd trwy fy mhen i. Ydw i am adael fy mhlant wyth a phump oed yn y gogledd i fynd i chwilio am waith yn y de? Neu ydw i am wireddu breuddwyd wrth drio dechrau busnes ac o leia' fel hyn dw i'n cael bod adra efo fy mhlant bach.

"Dwi'n caru bob dim *vintage* erioed, ma'r tŷ yn llawn o bethau tebyg. Felly fy menter newydd ydy gwerthu stwff *vintage*, gwaith celf, *upcycle* – rhoi bywyd newydd i hen bethau."

Mae'r siop, dan yr enw Manon, wedi agor ers ychydig dros wythnos erbyn hyn ac wedi ei lleoli ar Stryd y Plas yng Nghaernarfon. Mae Manon wedi penderfynu rhoi lluniau o rai eitemau sydd ar werth yn y siop ar ei thudalen *Facebook* yn gyson er mwyn denu cwsmeriaid.

"Dw i wedi cael y fath groeso ar y stryd 'ma. Dw i wedi cael llwyth o gymorth a dw i mor ddiolchgar. Mae fy ngŵr go iawn i [yr actor Emlyn Gomer Roberts] a fy ngŵr i ar *Rownd a Rownd* [Meical] wedi bod yn fy helpu i hefyd efo'r pethau mawr trwm!"

**Dewch draw i ddathlu agoriad swyddogol y siop efo Manon.**

**Nos Lun am 5 o'r gloch.**

ⓗ WJEC CBAC Cyf. 

**DARN DARLLEN 6**

cymru fyw

Hafan Cylchgrawn Gwleidyddiaeth Gog-Orll Gog-Ddwy Canolbarth De-Orll De-Ddwy Wales News

# Diwedd cyfnod i gwmni Cadwyn wrth i'r sylfaenwyr ffarwelio

**Aled Scourfield** Gohebydd BBC Cymru

3 Ionawr 2019



**Ar ôl dros 45 mlynedd yn y busnes, mae cyfarwyddwyr cwmni crefftau Cadwyn wedi cyhoeddi y byddan nhw'n ildio'r awenau.** Sefydlwyd y busnes gan yr ymgyrchwyr iaith adnabyddus Ffred a Meinir Ffransis yn 1973, a dechreuodd y cwmni fasnachu flwyddyn yn ddiweddarach.

Yn 1973, aeth Ffred i'r carchar am flwyddyn am gynllwynio i ddringo mast teledu fel rhan o'r ymgyrch dros sianel deledu Gymraeg. Yn y carchar, bu'n creu cynlluniau sut i wneud bywoliaeth ar ôl cael ei ryddhau a fyddai'n caniatáu iddo barhau i weithredu gyda Chymdeithas yr Iaith.

Yn ôl Ffred, roedd ffurfio Cadwyn yn rhan o'r ymdrechion i hybu'r Gymraeg. "Dw i'n meddwl ei fod e'n rhan o'r chwyldro diwylliannol, lle roedd pobl eisiau gwneud popeth yn Gymraeg. Roedd pobl yn sefydlu cwmnïau recordio Cymraeg ... roedden ni eisiau trefnu bod crefftau Cymru yn cael eu hybu, bod modd derbyn gwasanaeth anrhegion Cymraeg, llosgi enwau yn Gymraeg a rhoi negeseuon Cymraeg ar nwyddau."



Dros y degawdau, mae Cadwyn wedi meithrin perthynas agos gyda chynhyrchwyr crefftau Masnach Deg mewn gwledydd fel Moroco.

Bydd y ddau yn ymddeol o'u rôl fel cyfarwyddwyr ac yn trosglwyddo'r awenau i'w mab, Hedd Gwynfor, ond yn ôl Ffred fydd ef a Meinir ddim yn diflannu o'r busnes. "Fe fydd siopau yn dal i fy ngweld mewn ffeiriau masnach, ond y gwahaniaeth fydd na fydda' i'n cael fy nhalu am wneud hynny!"

Bwriad Hedd yw cynyddu'r busnes ar-lein, gwella presenoldeb Cadwyn ar-lein a defnyddio mwy o'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r cynnyrch.